YSGOL BRYNREFAIL

CONFENSIWN ADDYSG UWCH UCAS

Mae Prifysgolion Prydain yn mynychu nifer fawr o Ffeiriau UCAS bob blwyddyn. Mae'r rhain yn rhedeg o fis Mawrth i fis Mehefin pob blwyddyn ac wedi eu hanelu at ddisgyblion blwyddyn 12 yn bennaf. Mae'r ffeiriau yma'n rhoi cyfle i ddisgyblion ddarganfod mwy am gyrsiau Addysg Uwch a sefydliadau cyn gwneud cais.

Ar ddydd Llun 8fed Mehefin 2015 cynhaliwyd Confensiwn Addysg Uwch UCAS yn Neuadd John Pritchard, Prifysgol Bangor. Bu aelodau blwyddyn 12 o Ysgol Brynrefail yno i flasu beth oedd ar gael gan y 56 sefydliad a gynry chiol wyd yno.

Yr oedd rhai sefydliadau , megis Prifysgol Caer, yn weddol hawdd mynd atynt. Ond yr oedd eraill, megis Prifysgol Aberystwyth, lle oedd yn rhaid ciwio am oes , cymaint oedd y diddordeb ynddynt.